**Julie James AC/AM**
**Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth**
**Minister for Skills and Science**

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-24-17 Papur 10/ Paper 10

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/JJ/2410/17

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb,
Llywodraeth Leol a Chymunedau

12 Gorffennaf 2017

Annwyl John

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Mehefin 2017 yn gofyn am gael gwybodaeth am Gynllun Cyflawni Cyflogadwyedd ar gyfer ymchwiliadau'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar dlodi yng Nghymru.

Yn fy natganiad diweddar i'r Cyfarfod Llawn wnes i nodi dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â chyflogadwyedd yn y wlad. Rwy'n bwriadu cyhoeddi Cynllun Cyflawni Cyflogadwyedd erbyn diwedd 2017. Mae'r Cynllun wrth wraidd ymrwymiad Symud Cymru Ymlaen i 'ail-lunio cymorth cyflogadwyedd i unigolion sy'n barod am waith, a'r rheiny sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur, er mwyn iddynt ennill y sgiliau a'r profiad i gael a chynnal cyflogaeth gynaliadwy'. Byddaf yn ystyried y gwasanaethau a'r seilwaith presennol yn ofalus, yn asesu pa mor dda y maent yn helpu pobl i ddod o hyd i waith ac aros mewn gwaith ac a ydynt yn rhoi gwerth am arian.

I sicrhau dull cwbl integredig o ddatblygu'r Cynllun Cyflawni Cyflogadwyedd, rwyf wedi sefydlu Bwrdd Cyflogadwyedd ar gyfer Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys uwch-swyddogion. Yn ogystal, rwyf yn llunio Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer Rhanddeiliaid Allanol fydd yn bwydo i mewn i'r Bwrdd Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru ac yn cynnwys cynrychiolaeth oddi wrth bartneriaid allweddol i sicrhau dull integredig tuag at gyflogadwyedd.

Yn fy natganiad amlinellais y ffaith y disgwylir i'n darapriaeth cyflogadwyedd newydd ddechrau gweithredu ym mis Ebrill 2019. Caiff hyn ei hyrwyddo fel un cynnig o dan yr enw "Cymru'n Gweithio" gyda rhaglen newydd ar gyfer oedolion a dwy raglen fydd yn darparu cefnogaeth cyflogadwyedd i bobl ifanc yn sail iddo. Rhwng nawr ac Ebrill 2019 byddwn yn ailstrwythuro ein rhaglenni cyfredol er mwyn sicrhau pontio llyfn, gan ddefnyddio ardaloedd y Cymmoedd a Cymunedau dros Waith fel man profi i lywio ein darpariaeth newydd

Byddwn yn diwygio ein rhaglenni cyflogadwyedd, gan gynnwys rhai sydd yn cael eu hariannu gan Ewrop, ReACT, Twf Swyddi Cymru a'n Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd, gan wneud yn siŵr bod y rhain yn cyd-fynd ar gyfer gwella'r gefnogaeth i bobl ddi-waith a'r rhai sydd yn symud i mewn ac allan o swyddi cyflog isel. Rydym hefyd yn datblygu amrediad o

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

brosiectau dan y rhaglen Swyddi Gwell yn Nes at Adref i alinio amrediad o beilotau masnachol gydag ymyrraeth eraill i gefnogi creu swyddi ystyrlon mewn cymunedau sydd gyda lefelau uchel o ddiweithdra.

Mae gan gyflogadwyedd rôl allweddol wrth gefnogi pobl i symud allan o dlodi. Rwyf yn croesawu  ymchwiliadau'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ac yn edrych ymlaen at dderbyn copi o'r adroddiad fydd, rwy'n gobeithio, yn gymorth i lywio datblygiad y Cynllun Cyflewni Cyflogadwyedd. Os yw'r pwyllgor angen mwy o wybodaeth ar y datblygiadau yr amlinellwyd yn y llythyr hwn neu yn fy natganiad yna peidiwch ag oedi i gysylltu â mi.

Yn gywir



**Julie James AC/AM**
Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth
Minister for Skills and Science